

Thank you for the opportunity to respond to this consultation. The Sentencing Council does not wish to respond to the consultation in detail, but in answer to the two questions posed in your letter:

- Do you believe there are any implications of implementing this Bill on your work and/or workload?
 - The Sentencing Council for England and Wales does not anticipate that implementing the Bill would have any significant implications for its work or workload.
- What discussions are you aware of with Welsh Government about this Bill?
 - The Sentencing Council for England and Wales has had no discussions with the Welsh Assembly about this Bill.

I hope this assists

Regards

Ruth Pope

Ebrill 2019

Annwyl Gyfaill,

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Mae'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol [Bil Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\)](#) ('y Bil'). Mae rhagor o wybodaeth am y Bil a gwaith y Pwyllgor arno ar gael fel Atodiad i'r llythyr hwn.

Galwad am dystiolaeth ysgrifenedig

O ystyried perthnasedd y Bil hwn i'ch maes gwaith chi, mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gennych. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael dau beth:

1. Ymateb i'w ymgynghoriad ar-lein

Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi galwad agored am dystiolaeth a byddai'n croesawu ymateb gennych. O gofio faint o wybodaeth a ddisgwylir, a'r amserlen a bennwyd inni gyflwyno adroddiad, dyma ofyn i chi ddefnyddio **porth ar-lein** i gyflwyno gwybodaeth bob tro. Bydd gwneud hyn yn ein helpu i sicrhau y caiff barn pawb ystyriaeth ddigonol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y porth, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor:

SeneddPPIA@cynulliad.cymru.

2. Ymateb i'r cwestiynau penodol isod (naill ai fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein neu mewn gohebiaeth ar wahân, pa un bynnag sydd hawsaf i chi)

Er mwyn llywio ei ystyriaeth o'r Bil, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- A ydych chi'n credu bod unrhyw oblygiadau o ran gweithredu'r Bil hwn ar eich gwaith a / neu'ch llwyth gwaith?
- Pa drafodaethau yr ydych chi'n ymwybodol ohonynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil hwn?

Mae'r Pwyllgor yn gofyn a fyddai modd i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno erbyn **dydd Mawrth 14 Mai** fan bellaf.

Polisi dwyieithrwydd

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â **Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad**, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC

Cadeirydd

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Diben y Bil yw diddymu'r amddiffyniad y cosb resymol o dan y gyfraith gyffredin, fel na fydd yr amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro bellach ar gael yng Nghymru i rieni nac i'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis.

Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad yn berthnasol i gyfraith trosedd a chyfraith sifil. O dan gyfraith trosedd, mae'n berthnasol o ran troseddau ymosod a churo yn y gyfraith gyffredin; ac o dan y gyfraith sifil, mae'n berthnasol o ran camwedd tresmasu yn erbyn y person.

Bwriad y Bil yw helpu i amddiffyn hawliau plant gan wahardd defnyddio cosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad hwn. Bwriad effaith y Bil, ynghyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogi rhieni, yw lleihau ymhellach ar yr arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru ac ar y graddau y caiff yr arfer ei oddef.

Mae [Crynodeb o'r Bil](#) ar gael.

Mae'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys wyth Aelod Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn gyrfifol am graffu ar bolisi, deddfwriaeth a chyllid Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun plant, pobl ifanc ac addysg yng Nghymru.

Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2019, bydd y Pwyllgor yn craffu ar egwyddorion cyffredinol y [Bil Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\)](#). Gallwch ddarllen rhagor am y [ffordd y mae'r Cynulliad yn craffu ar ddeddfwriaeth](#) ar y wefan.

Hoffai'r Aelodau glywed barn sefydliadau ac unigolion am y Bil i helpu i lywio'r adroddiad y bydd y Pwyllgor yn ei lunio, yn enwedig mewn perthynas â'r cylch gorchwyl canlynol:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd yn y Bil;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
- priodoldeb y pŵer yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).